# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meriel Owen**

**Bae Colwyn**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meriel Kynaston Owen wedi'i chofrestru i ofalu am uchafswm o 6 o blant ar unrhyw un adeg. Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu o'i chartref mewn ardal breswyl ym Mae Colwyn rhwng 8:00am a 6:00pm o ddydd Llun i ddydd Mercher. Mae'r gwarchodwr plant yn mynd â'r plant i ysgol leol a grwpiau cyn-ysgol ac yn eu casglu oddi yno.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig gofal drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'n gweithio tuag at ddarparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n siarad Cymraeg yn rhugl ac mae rhywfaint o'r dogfennau yn ddwyieithog.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn cyfathrebu'n hyderus. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo eu llesiant a'u hunanhyder a chaiff eu hannibyniaeth ei annog. Maent yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu sgiliau drwy chwarae. Mae'r gwarchodwr plant magwrus a phrofiadol yn darparu amgylchedd chwarae addas, yn arwain y plant mewn ffordd sensitif ac yn diwallu eu holl anghenion. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi blaenoriaeth uchel i iechyd a diogelwch y plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn addas ac yn cynnwys adnoddau o ansawdd da. Mae'n trefnu ei gwasanaeth yn dda ac mae ganddi gydberthnasau cadarnhaol a defnyddiol â'r rhieni, er mwyn sicrhau canlyniadau da i'r plant.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad blaenorol;

- mae'r ardal chwarae yn yr awyr agored yn rhoi amrywiaeth o brofiadau i'r plant ar fyrddau gweithgareddau ac wedi'u teilwra ar y waliau, megis chwarae gyda dŵr gan ddefnyddio cafnau, gwrthrychau sy'n rholio a chaewyr gwahanol.
- mae'r gwarchodwr plant wedi diweddaru ei gwybodaeth gan ei bod wedi mynychu cyrsiau ar reoli ymddygiadau ac ymwybyddiaeth o awtistiaeth, ac
- mae'n rhannu'r hyn y mae'r plant wedi'i wneud â'r rhieni drwy dynnu nifer o luniau o'r gweithgareddau.

Anfonodd y gwarchodwr plant gopïau cyfredol o'i hasesiadau risg (gan gynnwys dyddiad yr ymarfer tân diwethaf) a'i Hadroddiad diweddaraf ar Ansawdd y Gofal o fewn tri diwrnod gwaith i'r arolygiad.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Argymhellir y dylid cynnal a chofnodi ymarferion tân pan fydd plant newydd yn dechrau yn y gwasanaeth.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn gwneud dewisiadau mewn ffordd hyderus. Maent yn gallu cyfathrebu'n effeithiol. Mae'r plant yn ffynnu gan eu bod yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymlacio. Maent yn dysgu sgiliau cymdeithasol gwerthfawr. Mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau pwrpasol yn y gwasanaeth hwn, gan gynnwys chwarae yn yr awyr agored. Mae'r plant yn dysgu nifer o gysyniadau drwy chwarae, gan gynnwys sgiliau'r Gymraeg ac yn dod yn annibynnol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn cyfleu eu hanghenion.

Roedd y plant yn mynegi eu hunain yn dda yn Gymraeg a Saesneg ac roedd y staff yn gwrando arnynt ac yn parchu eu dewisiadau. Gwnaethant ddewisiadau a phenderfyniadau priodol gan eu bod yn ymwybodol o'r opsiynau a oedd ar gael, er enghraifft roedd amrywiaeth o deganau iddynt chwarae â nhw a sawl llyfr i'w darllen. Gofynnodd y plant am y gwahanol eitemau chwarae nad oeddent yn gallu dod o hyd iddynt, a gwnaethant helpu eu hunain i deganau megis doliau, eu dillad, blancedi a'u bygis. Roedd y plant yn hyderus wrth gyfathrebu oherwydd roeddent yn gwybod bod eu mamiaith yn cael ei hystyried yn briodol.

Mae gan y plant lais cryf a gallant fynegi eu hunain yn rhydd am fod eu dewisiadau yn cael eu parchu.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae’r plant yn teimlo’n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd y plant wedi setlo ac yn fodlon gyda'r gwarchodwr plant, ac roeddent yn hapus i chwarae gyda hi a gyda'i gilydd. Roedd yn amlwg bod cydberthnasau cadarn rhwng y plant a'r gwarchodwr plant gan eu bod yn mynd ati i ateb eu cwestiynau neu i gael cymorth. Roeddent wedi ymlacio ac yn dangos eu bod yn mwynhau, er enghraifft drwy esgus gwneud cacen pen-blwydd i'w gilydd. Roedd y plant hefyd yn datblygu cydberthnasau â'i gilydd wrth iddynt esgus mynd am dro neu fynd ar wyliau gyda'i gilydd. Arddangoswyd crefftau'r plant gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel iawn yn gyson ac yn hapus mewn amgylchedd sy'n eu derbyn ac sy'n eu gwerthfawrogi fel unigolion.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd a'r gwarchodwr plant.

Gwnaeth y plant ryngweithio'n dda â'r gwarchodwr plant, er enghraifft pan wnaeth ofyn iddynt ddod i newid eu cewynnau, gwnaethant ufuddhau'n hapus. Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd wrth iddynt rannu doliau a photeli bwydo. Roeddent yn datblygu i fod yn hunanymwybodol ac yn dysgu i fynegi'r hyn yr oedd ei angen arnynt megis gofyn am greonau a sticeri i wneud cardiau. Dangosodd y plant bryder am ei gilydd ac fe'u clywsom yn gofyn "Are you ok?" ar un adeg er mwyn sicrhau eu bod yn mwynhau eu byrbryd yn ystod y picnic.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd a gyda'r warchodwraig.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn dangos diddordeb ac yn ymgysylltu â'u chwarae.

Roedd y plant yn uchel eu cymhelliant ac yn ymroi i chwarae a dysgu wrth iddynt ymarfer eu sgiliau ysgrifennu a gwneud marciau. Gwnaethant ddefnyddio llawer o iaith wrth chwarae gyda'i gilydd a'r gwarchodwr plant. Roeddent yn dysgu am siapiau ac ymwybyddiaeth ofodol wrth gwblhau jig-sos. Gwnaethant fwynhau gemau bwrdd megis gêm paru ac roeddent yn awyddus i awgrymu mwy o gemau.

Mae'r plant yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu yn llawn brwdfrydedd.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o brofiadau sy'n hybu eu datblygiad yn gyffredinol.

Roedd gan y plant amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys chwarae a ddewiswyd yn rhydd a chwarae wedi'u harwain ganddynt eu hunain a oedd yn eu galluogi i feithrin amrywiaeth dda o alluoedd megis sgiliau cyn ysgrifennu wrth baentio. Gwelsom luniau o'r plant yn coginio, mynd am dro a chwarae yn y parc – ac roedd pob un ohonynt yn hyrwyddo eu sgiliau corfforol. Roedd gan y plant gydberthynas gadarn â'r gwarchodwr plant, a oedd yn eu galluogi i feithrin hyder a goresgyn heriau. Dangoswyd hyn pan oedd plentyn yn ansicr ynglŷn â chael paent ar ei dwylo a rhoddodd y gwarchodwr plant sicrwydd iddi. Rhoddwyd cymorth i'r plant ddatblygu sgiliau sy'n eu helpu i fod yn annibynnol megis gwisgo esgidiau a chotiau.

Mae'r plant yn datblygu'n effeithiol ac yn gyson ac yn dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach mewn awyrgylch gofalgar. Mae'n rheoli'r rhyngweithio'n dda, yn fodel rôl da ac yn defnyddio strategaethau cadarnhaol. Mae'n broffesiynol ac yn brofiadol; yn hyrwyddo dysgu'r plant drwy chwarae, yn darparu ystod o weithgareddau ac yn diwallu anghenion unigol y plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith sydd â llesiant a diogelwch wrth eu gwraidd.

Roedd polisi amddiffyn plant priodol ar waith ac roedd gan y gwarchodwr plant y manylion cyswllt perthnasol. Roedd hi'n glir o'i chyfrifoldebau os oes ganddi bryder am blentyn. Y rhieni sy'n darparu'r bwyd a'r diod a chaiff ffrwythau eu cynnig fel byrbryd os oes angen. Roedd gan y gwarchodwr plant dystysgrif Cymorth Cyntaf gyfredol a oedd yn golygu ei bod yn gallu delio â mân anafiadau. Roedd damweiniau wedi'u cofnodi'n briodol a gofynnwyd i rieni lofnodi'r cofnodion hyn er mwyn cadarnhau eu bod wedi'u hysbysu. Gwelsom fod iechyd y plant hefyd yn cael ei hybu gan fod y gwarchodwr plant yn dilyn gweithdrefnau newid cewynnau er mwyn osgoi croeshalogi, gan gynnwys golchi dwylo yn rheolaidd. Mae'r gwarchodwr plant wedi defnyddio'r Adnodd Archwilio Rheoli Heintiau ac roedd pob ardal yn lân. Cafodd y plant eu hannog i olchi eu dwylo ar ôl mynd i'r toiled a gwnaethant ddefnyddio eu tywelion personol i sychu eu dwylo. Sicrhaodd y gwarchodwr plant fod gan y plant gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored ac roeddent yn gallu chwarae ar y balconi os oeddent yn dymuno gwneud hynny a gwelsom luniau ohonynt yn chwarae yng nghefn y tŷ hefyd. Dangosodd y drafodaeth â'r gwarchodwr plant y byddai'r plant yn cael eu gwagio o'r adeilad yn ddiogel mewn argyfwng ond nid oedd unrhyw gofnod o ymarferion tân. Anfonwyd cofnodion atom yn ddiweddarach o'r ymarfer tân diweddaraf. Cafodd gwiriadau rheolaidd o'r larwm dân eu cwblhau a'u cofnodi er mwyn sicrhau y byddai rhybudd o dân yn cael ei glywed.

Mae'r gwarchodwr plant yn llwyddo i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio strategaethau cadarnhaol i reoli'r rhyngweithio.

Roedd y gwarchodwr plant yn rheoli'r rhyngweithio yn llwyddiannus drwy ddefnyddio strategaethau cadarnhaol megis canmoliaeth, anogaeth a thynnu sylw ac ni chafwyd unrhyw ymddygiad amhriodol. Roedd hefyd yn gallu rheoli'r rhyngweithio yn dda yn unol â'r egwyddorion a gaiff eu hadlewyrchu yn y polisi. Cafodd y plant hwyl gyda'r gwarchodwr plant gan eu bod am ei phlesio, gwnaethant wrando arni a chydweithio â hi. Roedd y gwarchodwr plant yn fodel rôl dda o ran dangos amynedd a pharch ac roedd yn annog y plant i ddweud os gwelwch yn dda a diolch. Mae hi wedi mynychu cwrs rheoli ymddygiad a

dywedodd ei fod yn ddefnyddiol. Roedd y gwarchodwr plant yn gyson, yn deg ac yn canmol y plant am fod yn ystyrlon wrth iddynt gynnwys ei gilydd yn eu chwarae.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r rhyngweithio yn effeithiol.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth o weithgareddau er mwyn hybu datblygiad y plant. Mae'n adnabod y plant yn ei gofal yn dda iawn ac yn diwallu eu hanghenion.

Roedd y gwarchodwr plant yn garedig, yn fagwrus ac yn sensitif gan ddeall dewisiadau'r plant megis eu hoff ffrwythau i'w bwyta fel byrbryd yn ystod eu picnic ffug. Roedd y gwarchodwr plant yn hyderus ac wedi ymlacio oherwydd ei phrofiad a'r wybodaeth a oedd ganddi am ofalu am y plant. Roedd hi'n cynnig ymdeimlad o hwyl a mwynhad wrth iddynt chwarae gemau bwrdd gyda'i gilydd. Yng nghanol y cyfnodau prysur, roedd cyfleoedd i'r plant ymlacio ac aeth un plentyn i gysgu. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio themâu tymhorol i ddarparu gweithgareddau crefft a choginio megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Santes Dwynwen i hyrwyddo caredigrwydd at ei gilydd. Roedd y gwarchodwr plant yn defnyddio iaith amrywiol yn yr amgylchedd ac roedd yn fodel rôl da o ran iaith gan ei bod yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf gyda'r plant â rhywfaint o Saesneg. Er enghraifft, gwnaeth addysgu llawer o iaith a geirfa drwy chwarae gêm lotto. Roedd yn deall pwysigrwydd dysgu drwy chwarae a gwnaeth gynnig llawer o gyfleoedd amrywiol megis ceir a garejis, gemau bwrdd a chrefftau.

Gwelsom luniau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau crefft megis creu lluniau o ddynion eira. Roedd y plant yn cael partïon, yn mynd am dro ac yn mwynhau pobi. Roedd y gwarchodwr plant yn ystyried darparu gweithgareddau diddorol yn ofalus gan fod cynlluniau i gynnal gweithgareddau crefft a gweithgareddau arbennig ar daflenni cofnodion wythnosol. Roedd ffurflenni cofrestru'r plant yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol i ofalu am y plant. Roedd y gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda ac wedi cael gwybodaeth werthfawr wedi'i diweddaru gan y rhieni am eu hiechyd a'u camau datblygu. Roedd hyn yn golygu y gallai ddiwallu eu hanghenion yn fanwl, megis gwybod pryd y byddent am gysgu o bosibl.

Mae'r gwarchodwr plant yn diwallu anghenion y plant yn effeithiol ac yn hybu eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad yn dda iawn.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel ac mae arsylwadau ac asesiadau risg ysgrifenedig yn dangos ei bod yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r amgylchedd yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn gartrefol gan gynnig profiadau addas i'r plant. Mae ansawdd y gemau, teganau a'r adnoddau yn addas i ddiwallu anghenion y plant sy'n datblygu.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Gwelsom fod y safle yn ddiogel ac mae cofnodion yn dangos fod y gwarchodwr plant yn eu gwirio'n aml ac yn rhoi mesurau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch.

Roedd y safleoedd yn ddiogel gyda'r brif fynedfa wedi'i chloi ac roedd yr ardal awyr agored wedi'i amgáu yn ddiogel. Roedd cofnod o ymwelwyr yn cael ei gadw yng nghofnodion personol y gwarchodwr plant. Cafodd asesiadau risg ysgrifenedig eu hadolygu a'u diweddaru'n ddiweddar a oedd yn dangos bod y gwarchodwr plant yn ymwybodol o'r peryglon posibl a sut i'w rheoli. Roedd y rhain yn cynnwys giât ar ben y grisiau. Roedd y gwarchodwr plant yn goruchwylio'r plant yn gyson ac yn sicrhau eu bod yn ddiogel. Roedd yr holl ardaloedd yn lân, yn daclus ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r safle yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod digonedd o le a chyfleusterau addas ar gael.

Gwnaeth y gwarchodwr plant sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i ddarparu gofal cartrefol i'r plant. Roedd yr amgylchedd yn gynnes ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Roedd digon o le i'r plant chwarae gyda'r teganau y gwnaethant eu dewis neu gymryd rhan yn y gweithgareddau yn yr ystafell chwarae, a oedd yn cynnwys balconi y tu allan, neu wrth fwrdd y gegin.  Roedd soffa yn galluogi'r plant i ymlacio os oedd angen. Roedd y gwarchodwr plant yn defnyddio'r amgylchedd yn hyblyg, a defnyddiwyd y landin hyd yn oed fel ardal i chwarae weithiau. Roedd y toiled yn cynnwys step er mwyn i'r plant defnyddio'r cyfleusterau yn annibynnol. Gwelsom fod yr ardal chwarae yn yr awyr agored yn cynnwys nifer o adnoddau ac roedd lluniau o'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau yn yr haf a oedd yn cynnwys chwarae gyda thywod a dŵr.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu teganau a chyfarpar glân o ansawdd da i'r plant.

Roedd amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu datblygiadol addas o ansawdd da ar gael i'r plant, gan gynnwys llyfrau a gemau bwrdd. Roedd digon ohonynt ar gael er mwyn sicrhau bod dewis da ar gyfer y plant megis papur a deunyddiau ysgrifennu a phaentio.

Roedd y teganau, y gemau, y cyfarpar a'r dodrefn yn lân ac yn addas, Gwelsom lyfrau ac adnoddau a oedd yn adlewyrchu'r gymdeithas ehangach.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da yn llwyddiannus.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac yn ceisio darparu gwasanaeth o safon. Mae hunanwerthuso yn effeithiol a gwneir gwelliannau gan ystyried pawb dan sylw. Caiff yr adnoddau eu rheoli'n dda ac mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ganddi ddigon o ddeunyddiau a chymorth parhaus gan asiantaethau eraill. Mae partneriaethau â'r rhieni yn effeithiol er budd y plant a'u teuluoedd.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinyddiaeth yn drefnus, yn llawn cymhelliant ac yn sicrhau canlyniadau da i'r plant.

Darparodd y gofalwr plant ddatganiad o ddiben cyfredol sy'n cyfleu darlun cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r arfer a welsom yn ystod yr ymweliad yn gyson â'r wybodaeth yn y datganiad o ddiben. Roedd y gwarchodwr plant yn hyderus ac yn gymwys ac mae ganddi brofiad sylweddol o weithio gyda phlant gan ei bod wedi bod yn warchodwr plant ers sawl blwyddyn. Roedd y cofnodion yn drefnus ac yn hawdd cael gafael arnynt. Gwnaeth y gwarchodwr plant sicrhau bod yr holl ofynion cyfreithiol wedi'u bodloni, megis rhannu gwybodaeth â ni ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol.

Mae'r arweinyddiaeth yn llwyddiannus ac yn drefnus.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan y gwarchodwr plant systemau ar waith i werthuso'r gwasanaeth.

Cwblhaodd y gwarchodwr plant adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal ar gyfer 2018, a oedd yn cynnwys barn y rhieni a'r plant. Gwnaeth gasglu eu barn ar ffurf holiaduron ac roedd lluniau ac ymatebion y plant yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth. Nododd y ddogfen feysydd i'w gwella megis parhau i adnewyddu adnoddau a mynychu cyrsiau. Gwnaed gwelliannau megis cynnal mwy o weithgareddau i'r plant yn yr awyr agored a gwella'r broses o newid cewynnau.

Cynhelir hunanwerthusiad effeithiol a gwneir gwelliannau yn sgil hynny.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth ac mae'n drefnus.

Roedd y gwarchodwr plant yn cymryd ei datblygiad proffesiynol o ddifrif a sicrhaodd ei bod yn cwblhau cyrsiau yn rheolaidd megis hylendid bwyd a chymorth cyntaf. Sicrhaodd ddiogelwch y plant gan fod pawb ar yr aelwyd a oedd dros 16 oed wedi cwblhau gwiriadau'r cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y gwarchodwr plant wedi mynychu cyrsiau i ehangu ei gwybodaeth am ddatblygiad plant megis Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a Rheoli Ymddygiadau.

Mae rheolaeth o'r gwasanaeth yn effeithiol iawn.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan y gwarchodwr plant gydberthnasau gwaith da â'r rhieni.

Roedd y gwarchodwr plant wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig gan rieni am ofal eu plentyn ac roedd hyn yn gyfredol. Gwnaeth y rhieni a'r gwarchodwr plant gyfnewid gwybodaeth ar lafar am ddiwrnod eu plentyn. Anfonwyd lluniau at y rhieni weithiau er mwyn dangos yr hyn yr oedd eu plant wedi'i fwynhau. Roedd y rhieni yn hapus iawn a gwnaethom ddarllen nifer o sylwadau cadarnhaol yn yr holiaduron a ddychwelwyd. Sylwodd y rhieni fod y plant yn dysgu geiriau Cymraeg a thynnodd y plant luniau o'u hoff weithgareddau. Roedd y rhieni yn hoffi'r amgylchedd magwrus a ddarperir.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall pa mor bwysig yw cydweithio'n agos â'r rhieni ac eraill er mwyn sicrhau y caiff anghenion y plant eu diwallu.

# 5 Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Ystyried cofnodi ymarferion tân, yn enwedig pan fydd plant newydd yn dechrau.

## **6.** Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Rhoddwyd awr o rybudd er mwyn sicrhau bod y gwarchodwr plant ar gael. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 6 Chwefror 2019 rhwng 13.00 a 16.15.

Gwnaethom y canlynol:

- Archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau sesiynau arsylwi er mwyn cael tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a ddarperir gan yr ymarferwyr;
- siarad â'r plant;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir a
- rhoi gwybod i'r gwarchodwr plant am ein canfyddiadau.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwraig** |
| **Person Cofrestredig** | **Meriel Owen** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **6** |
| **Ystod oedran y plant** | **0 – 12 oed** |
| **Oriau agor** | **O ddydd Llun i ddydd Mercher, rhwng 8.00 a 18.00** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **26 Tachwedd 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **06 Chwefror 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy**<br>Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'r gwarchodwr plant yn siarad Cymraeg yn rhugl ac mae rhai dogfennau ar gael yn Gymraeg, ond mae rhai polisïau yn Saesneg yn unig. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |